*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd y drafft hwn i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Amlinellir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/Solace (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2023/24. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

5 Yn dilyn yr asesiad hwn, cyflwynir fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Awdurdod i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol wedyn.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

6 Gan mai drafft yw hwn, nid yw wedi bod trwy'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol. Fodd bynnag, bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Hydref i'w chadarnhau.

**ARGYMHELLIAD**

7 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24;
ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25; a
iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24.

**CEFNDIR**

8 Mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi'i sefydlu ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

10 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef 'Developing Good Governance in Local Government: Framework' (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i strwythuro o gwmpas saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol ac i nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

11 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

12 Amlinellir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25.

13 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

14 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaengynllun gwaith 24/25 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae’r Datganiad yn cyfeirio’n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |